**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**National Assembly for Wales**
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

13 Ebrill 2018

Annwyl Kirsty

**Grant Gwisg Ysgol**

Ysgrifennaf ynghylch dod â'r Grant Gwisg Ysgol i ben o 2018-19, gan ei fod wedi darparu hyd at £105 i bob plentyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wrth iddynt ymuno â Blwyddyn 7.

Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai hyn arwain at golli cymorth ariannol pwysig i deuluoedd ar incwm isel wrth brynu gwisg ysgol. Yng ngoleuni ein pryderon, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r canlynol:

1. A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol barhau i weithredu cynllun grant gwisg ysgol.

2. A yw'r arian blynyddol o £700,000 wedi'i symud i Grant Cymorth Refeniw llywodraeth leol neu i gronfeydd wrth gefn canolog (yn syml, a yw'n cael ei dorri?).

3. A gynhaliodd Llywodraeth Cymru Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cyn penderfynu terfynu'r Grant Gwisg Ysgol, a sut y dylanwadodd yr asesiadau hynny ar benderfyniad Llywodraeth Cymru.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

Nid ydym wedi ein hargyhoeddi gan y rhesymeg a ddarparwyd ar gyfer y newid hwn, sef bod prisiau gwisgoedd ysgol wedi gostwng yn sylweddol ac felly nad oes angen y cymorth ariannol hwn bellach ar deuluoedd cymwys. Heb arian wedi'i neilltuo, nid yw'n glir inni sut y bydd teuluoedd disgyblion sy'n cael cinio ysgol am ddim yn dal i allu cael cymorth wrth dalu costau gwisgoedd ysgol newydd wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru, yn ystod cylch gosod cyllideb 2018-19, wedi mabwysiadu dull o beidio â neilltuo arian awdurdodau lleol a symud nifer o ffrydiau ariannu i'r Grant Cymorth Refeniw. Byddwch yn ymwybodol o'n llythyr dyddiedig 14 Mawrth 2018, a sylwadau blaenorol, o'n pryderon ynghylch yr ymagwedd hon yn achos penodol y cyllido ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr, a Lleiafrifoedd Ethnig. Rydym hefyd wedi codi nifer o gwestiynau am y tryloywder o ran symud cyllid o grantiau penodol i'r Grant Cymorth Refeniw.

Mae gennym bryderon tebyg am y Grant Gwisg Ysgol. O'r dogfennau a gyhoeddwyd am y gyllideb, ymddengys bod y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer y Grant Gwisg Ysgol yn rhan o ostyngiad yn 2018-19 i'r llinell gyllideb sy'n cyllido'r Grant Gwella Addysg. Fel gyda dileu arian o'r Grant Gwella Addysg, nid yw'n glir i ble mae'r arian hwn wedi mynd gan nad yw wedi'i gofnodi yn y setliad llywodraeth leol fel cyllid wedi'i drosglwyddo i'r Grant Cymorth Refeniw, yn wahanol i grantiau neilltuedig eraill sydd wedi dod i ben. Felly mae rhai elfennau cyffredin yn ein pryderon ynghylch y ddau fater hyn.

Yng ngoleuni ein pryderon, byddem yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau'r canlynol:

4. A yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol ddarparu cymorth ariannol o'u dyraniadau Grant Cymorth Refeniw i deuluoedd cymwys ar gyfer prynu gwisgoedd ysgol.

5. A yw hyn yn golygu trosglwyddo grant (ac, os felly, pam nad yw wedi'i gofnodi felly yn Setliad Llywodraeth Leol 2018-19).

6. Os yw'r cyllid o £700,000 ar gyfer helpu teuluoedd cymwys i brynu gwisg ysgol bellach wedi'i gynnwys yn y Grant Cymorth Refeniw, pa fecanwaith sy'n bodoli i ddangos bod yr arian wedi ei symud, ac y caiff y defnydd ohono, at y diben hwn, ei fonitro.

Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r pwyntiau a godir yn y llythyr hwn, gan gynnwys y cwestiynau penodol ym mhwyntiau 1 i 6.

Yn gywir,

**Lynne Neagle AM**
**Cadeirydd**

Cc Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid